

## **2021 (WG21-80)**

### **Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Y Brifysgol Agored) (Cymru) 2021/2022**

#### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn darparu cyllid i'r Brifysgol Agored at ddiben sefydlu cronfeydd disgresiynol i ddarparu taliadau brys i fyfyrwyr cymwys yng Nghymru mewn cysylltiad ag argyfyngau annisgwyl, ac i gynorthwyo mewn achosion pan all myfyriwr cymwys yng Nghymru fod yn ystyried ymadael ag addysg uwch oherwydd problemau ariannol. Mae'n darparu gwybodaeth i'r Brifysgol Agored mewn cysylltiad â pholisi a'r trefniadau ar gyfer gweinyddu cyllid o'r fath, ac yn gosod gofynion mewn cysylltiad â'r trefniadau hynny.

Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Awst 2021 ac mae'n gymwys tan 31 Gorffennaf 2022. Mae'n disodli Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Y Brifysgol Agored) (Cymru) 2020/2021.

## 2021 (WG21-80)

### Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Y Brifysgol Agored) (Cymru) 2021/2022

#### RHAN 1 - CYFFREDINOL

##### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Y Brifysgol Agored) (Cymru) 2021/2022.

2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Awst 2021 ac mae'n gymwys tan 31 Gorffennaf 2022. Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru ac yn disodli Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Y Brifysgol Agored) (Cymru) 2020/2021.

##### Dehongli

3. Yn y Cynllun hwn—

ystyr “GMA” (“*DSG*”) yw grant ar gyfer costau byw myfyrwyr anabl o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Cymru) 2018 (Rhif 191 Cy. 42), neu lwfans cyfatebol o dan gynllun cymorth myfyrwyr priodol a gyllidir gan y llywodraeth i'r myfyriwr neu ddeddfwriaeth;

ystyr “modiwl blas i israddedigion” (“*undergraduate taster module*”) yw modiwl mewn cwrs addysg uwch israddedig—

- (a) sydd naill ai'n arwain at gymhwyster addysg uwch neu'n sefyll ar ei ben ei hun ac nad yw'n arwain at gymhwyster o'r fath; a
- (b) sy'n gyfwerth ag o leiaf 8% neu 10 credyd o gwrs llawnamser;

ystyr “y Sefydliad” (“*the Institution*”) yw'r Brifysgol Agored;

ystyr “taliad o fenthyciad” (“*loan payment*”) yw taliad o fenthyciad o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Cymru) 2018 (Rhif 191 Cy. 42), neu gynllun cymorth myfyrwyr cyfatebol a gyllidir gan y llywodraeth i'r myfyriwr cymwys neu ddeddfwriaeth.

##### Diwygio

4. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau a nodir yn y Cynllun hwn, eu dirymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

## Cyngor ariannol

5. Mae darparu cyngor ariannol i fyfyrwr yn rhan allweddol o sicrhau y gweithredir y Cynllun hwn yn effeithiol.

6. Dylai gweinyddwyr fod yn ymwybodol y gall fod yn bryder i rai myfyrwyr Mwslimaidd os yw'n ofynnol iddynt arfer eu hawlogaeth i gael benthyciad i fyfyrwyr(1). Yn yr achosion hyn, efallai y bydd yn ddefnyddiol i weinyddwyr gynghori myfyrwyr i ymweld â gwefan Ffederasiwn Cymdeithasau Islamaidd y Myfyrwyr (FOSIS) yn: <http://www.fosis.org.uk> am wybodaeth a chyngor. Bydd gweinyddwyr hefyd yn ymwybodol heb amheuaeth fod sawl banc yn y DU yn cynnig cyfrifon banc personol a weithredir yn unol â chyfraith Sharia.

## RHAN 2 – DIBENION Y CYNLLUN

### Grwpiau â blaenoriaeth

7. Rhaid i'r Sefydliad roi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n perthyn i un neu ragor o'r grwpiau â blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 8.

8. Y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer cymorth o dan y Cynllun hwn yw'r myfyrwyr cymwys a ganlyn:

(1) Myfyrwyr sydd â phlant dibynnol o dan 18 mlwydd oed;

(2) Myfyrwyr sydd eisoes ag ymrwymadau ariannol hanfodol, gan gynnwys dyledion â blaenoriaeth (gweler paragraff 13);

(3) Myfyrwyr anabl, yn enwedig y rheini nad oes modd i'w GMA dalu costau penodol, ac nad oes rhwymedigaeth ar y Sefydliad ychwaith i wneud hynny;

(4) Myfyrwyr a fu, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 3 blynedd cyn diwrnod cyntaf eu cwrs, yng ngofal awdurdod lleol;

(5) Myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf sydd mewn anhawster ariannol, gan gynnwys y rheini na allant wneud gwaith am dâl oherwydd pwysau academiaidd;

(6) Myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 neu o dan gynllun cymorth myfyrwyr cyfatebol a gyllidir gan y llywodraeth i'r myfyrwr cymwys neu ddeddfwriaeth, ond rhaid i fyfyrwyr o'r fath allu dangos eu bod wedi gwneud darpariaeth ddigonol mewn cysylltiad â'u costau byw drwy gydol eu cwrs; a

---

(1) Benthyciadau sy'n daladwy o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 neu gynllun cymorth myfyrwyr cyfatebol a gyllidir gan y llywodraeth.

(7) Myfyrwyr sydd hefyd yn ofalwyr sy'n darparu cymorth di-dâl i rywun na allai ymdopi heb y cymorth hwn.

### **Dibenion y caniateir defnyddio taliadau ar eu cyfer**

9. Ni chaniateir defnyddio'r taliadau a wneir i fyfyrwyr yn rhinwedd y Cynllun hwn ac eithrio at y dibenion a bennir yn y Cynllun hwn.

### **Cyffredinol**

10. Rhaid defnyddio unrhyw gyllid a roddir i'r Sefydliad yn rhinwedd y Cynllun hwn at ddiben darparu cyllid i fyfyrwyr cymwys y gall ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg uwch, neu fyfyrwyr cymwys sydd, am ba reswm bynnag, yn wynebu caledi ariannol sy'n gysylltiedig â'u costau byw. Ni chaiff y Sefydliad ddarparu cyllid mewn cysylltiad â ffioedd dysgu myfyriwr cymwys o dan unrhyw amgylchiadau ac eithrio'r rheini a bennir ym mharagraffau 15 a 18.

### **Costau sy'n deillio o anableddau**

11. Caiff y Sefydliad wneud taliadau at ddiben helpu myfyrwyr cymwys anabl a myfyrwyr cymwys sydd â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys taliadau mewn cysylltiad â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd ac nas telir o'r GMA, er enghraifft costau mewn cysylltiad â phrawf diagnostig rhagarweiniol neu gyfarpar penodol, ond nid yw'n gyfyngedig i'r taliadau hynny. Pan fo'r Sefydliad wedi prynu cyfarpar ar gyfer myfyriwr anabl o dan y Cynllun hwn, dylai'r cyfarpar hwnnw barhau'n eiddo i'r Sefydliad, oni bai bod y cyfarpar hwnnw wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion unigol y myfyriwr hwnnw.

### **Costau cyrsiau**

12. Caiff y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at ddiben helpu gyda chostau eu cwrs. Mae costau o'r fath yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gofal plant, teithio, llyfrau a theithiau maes, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny. Nid yw costau cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu - am ffioedd dysgu, gweler paragraffau 15 a 17 isod.

### **Costau eithriadol**

13. Caiff y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at ddiben helpu gyda'u costau eithriadol. Mae costau o'r fath yn cynnwys costau atgyweirio cyfarpar hanfodol yn y cartref, sefyllfaoedd brys (gan gynnwys costau teithio ar achlysur salwch teuluol neu brofedigaeth a chaledi oherwydd bwrgleriaeth neu dân) a chynhorthwy gyda dyledion â blaenoriaeth (sef

dyledion y byddai methu â'u talu yn peri y byddai hawl gan y credydwr i amddifadu'r dyledwr o'i gartref, neu nwyddau neu wasanaethau hanfodol, ac nid yw'r rhain, felly, yn cynnwys dyledion ar ffurf gorddrafftiau banc neu gardiau credyd), ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny.

### **Costau byw**

**14.** Caiff y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at ddiben helpu gyda'u costau byw tra bônt yn dilyn cwrs addysg uwch. Mae costau o'r fath yn cynnwys rhent, taliadau morgais, bwyd, biliau cyfleustodau, dillad a golchi dillad, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny, a chânt gynnwys costau yr eir iddynt yn ystod gwyliau'r haf yn ogystal ag yn ystod y tymor.

### **Ffioedd dysgu**

**15.** Caiff y Sefydliad ddarparu cymorth ychwanegol at ffioedd i fyfyrwyr cymwys sydd ag incwm isel, os yw'r cymorth arall a gânt tuag at ffioedd yn annigonol i dalu'r ffioedd dysgu llawn, yn enwedig o dan amgylchiadau pan fydd y caledi ariannol a achosir yn atal myfyriwr rhag cael mynediad i addysg uwch a pharhau mewn addysg uwch.

### **Modiwlau blas i israddedigion – costau cyrsiau a ffioedd dysgu**

**16.** Caiff y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â modiwl blas i israddedigion.

**17.** Caiff y Sefydliad gynnig cymorth o dan y Cynllun hwn mewn cysylltiad â'r ffioedd a godir am un modiwl blas i israddedigion neu un flwyddyn academaidd o fodiwl blas i israddedigion, pa un bynnag yw'r byrraf o'r ddau gyfnod hynny. Gellid darparu cynhorthwy cyfyngedig hefyd ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â chyrsiau, megis llyfrau neu deithio.

**18.** Pan fo myfyriwr cymwys yn ymgymryd â modiwl blas i israddedigion ac, yn ystod yr un flwyddyn academaidd, yn trosglwyddo credydau a gronnyd o'r modiwl hwnnw i flwyddyn gyntaf cwrs addysg uwch rhan-amser, rhaid i'r Sefydliad sicrhau nad yw'r cymorth a gaiff y myfyriwr cymwys at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd honno (boed yn gymorth at ffioedd o dan y Cynllun hwn neu unrhyw gymorth statudol at ffioedd) yn fwy na'r ffi ddysgu a godir gan y Sefydliad ar fyfyrwyr sy'n ymrestru'n uniongyrchol ar y cwrs addysg uwch rhan-amser hwnnw.

## RHAN 3 – CYMHWYSTRA

### Myfyrrwyr a chyrsgwyr cymwys

**19.** Rhaid i fyfyrwyr cymwys fod wedi ymchwilio i bob ffynhonnell arall o gyllid, gan gynnwys cyllid cyhoeddus, ac wedi ymgeisio am gyllid o'r ffynonellau hynny, cyn y caniateir ystyried cais o dan y Cynllun hwn.

**20.** Ni chaniateir rhoi taliadau o dan y Cynllun hwn ar gael i neb ac eithrio i fyfyrwyr cymwys.

**21.** Mae myfyriwr cymwys yn fyfyrwr rhan-amser:

(1) y gweinyddir ei astudio yn y Sefydliad gan y Brifysgol Agored yng Nghymru; a

(2) sydd, ym marn y Sefydliad, yn dod o fewn un o'r categorïau ym mharagraffau (a) a (b) isod—

- (a) Myfyrrwyr israddedig: gan gynnwys dysgwyr o bell, sy'n dilyn cwrs addysg uwch neu'n ymgymryd ag unrhyw gyfnodau o leoliad gwaith neu'n astudio ar gyrsiau gradd sylfaen. Mae myfyrrwyr sy'n astudio blwyddyn sylfaen sy'n rhan annatod o gwrs gradd, a phan na fo modd symud ymlaen i'r rhan AU o'r cwrs oni chwblheir y flwyddyn sylfaen honno, hefyd yn gymwys i wneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn.
- (b) Myfyrrwyr ôl-raddedig: sy'n dilyn cwrs addysg uwch ar lefel uwchlaw lefel gradd gyntaf ac sy'n parhau am o leiaf un flwyddyn academiaidd. Gall hyn gynnwys, yn ôl disgrisiwn y Sefydliad, y rheini sy'n ysgrifennu eu traethodau ymchwil am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf ar ôl dyddiad terfynol eu cofrestriad ar gwrs ac nad ydynt, felly, yn bresennol yn y Sefydliad.

**22.** Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), ni fydd person sy'n dod o fewn paragraff 21 yn fyfyrwr cymwys oni bai ei fod yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir—

- (a) ym mharagraffau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 11, 13, 14, 16, 18 ac 20 o Ran 2 o'r Atodlen i'r Cynllun hwn; neu
- (b) yn achos myfyriwr y dechreuodd ei gwrs cyn 1 Awst 2021, ym mharagraffau 8, 10, 12, 15, 17 neu 19 o Ran 2 o'r Atodlen.

(2) Ni fydd person sy'n dod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen i'r Cynllun hwn yn fyfyrwr cymwys ond at ddibenion cymorth tuag at ffioedd dysgu.

(3) Pan fo'r Sefydliad wedi penderfynu cyn 1 Awst 2021 nad yw myfyriwr ond yn gymwys i gael cymorth tuag at ffioedd dysgu, ni fydd y myfyriwr hwnnw ond

yn gymwys i gael cymorth tuag at ffioedd dysgu drwy gydol y cwrs.

(4) Ni fydd person yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2028 os yr unig baragraff neu baragraffau yn yr Atodlen y mae'r person yn dod o'i fewn neu o'u mewn yw un o baragraffau 13 neu 14 neu'r ddau ohonynt.

**23.** Caiff y Sefydliad dderbyn mwy nag un cais am gyllid oddi wrth fyfyrwr cymwys o dan y Cynllun hwn, ond fel rheol ni wneir hynny ac eithrio pan fo amgylchiadau'r myfyrwr cymwys wedi newid neu pan fo'r myfyrwr cymwys yn gwneud cais am gynhorthwy yn ystod gwyliau'r haf.

## RHAN 4 – MATHAU O DALIAD

### **Grantiau**

**24.** Caiff y Sefydliad ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf grantiau.

### **Benthyciadau byrdymor**

**25.** Caiff y Sefydliad ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf benthyciadau byrdymor. Caniateir i fyfyrwyr cymwys gael benthyciad brys byrdymor o dan y Cynllun hwn pan fo eu taliad o fenthyciad cyntaf yn hwyr, a heb gyrraedd erbyn dechrau'r tymor o dan sylw. Mater i'r Sefydliad yw penderfynu ar swm y benthyciad byrdymor i'w ddyfarnu i fyfyrwr cymwys, ond argymhellir na ddylai fod yn fwy na swm sy'n cyfateb i bedair wythnos o'r taliad o fenthyciad. Mae'n bosibl y bydd y Sefydliad am asesu budd cynnig benthyciad byrdymor o dan amgylchiadau eraill hefyd.

## RHAN 5 – PENDERFYNU AR DALIADAU

### **Ceisiadau am gyllid**

**26.** Rhaid i'r Sefydliad werthuso ceisiadau am gyllid o dan y Cynllun hwn fesul achos unigol. Ym mhob achos, rhaid i'r Sefydliad asesu cais myfyrwr ar sail y dystiolaeth a ddarperir gan y myfyrwr hwnnw a'i amgylchiadau unigol. Dylai myfyrwr gael ei hysbysu pa un a yw ei gais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pedair wythnos i'r Sefydliad gael y cais hwnnw.

## **Ystyried cyllid o ffynonellau eraill wrth asesu cymhwystra**

27. Wrth asesu cymhwystra myfyriwr o dan y Cynllun hwn, dylai'r Sefydliad ystyried a yw'n briodol cymryd i ystyriaeth unrhyw fwsariau disgresiynol a ddyfarnwyd eisoes gan y Sefydliad i'r myfyriwr hwnnw, naill ai ar sail cyrhaeddiad neu'n dilyn prawf modd. Dylai ystyried hefyd a yw'r myfyriwr yn cael unrhyw fwsariau neu gymhellion hyfforddi ariannol o ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â chysiau penodol, er enghraifft y rheini sy'n gysylltiedig â'r GIG a hyfforddi athrawon.

## **Cyfraniad rhieni/partneriaid**

28. Dylai'r Sefydliad gadw mewn cof y posibilrwydd y gall cyfraniadau rhieni neu bartneriaid weithiau fod yn llai nag y byddid yn disgwyl, am wahanol resymau, gan gynnwys ymwahanu ac anawsterau ariannol o fewn y teulu.

# **RHAN 6 – PROSESAU: Y RHYNGWYNEB RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A'R SEFYDLIAD**

## **Talu i'r Sefydliad**

29. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid i'r Sefydliad o dan y Cynllun hwn pan gânt gadarnhad ysgrifenedig gan y Sefydliad ei fod yn derbyn telerau ac amodau'r Cynllun hwn.

30. Swm y cyllid i'w dalu i'r Sefydliad fydd y swm a ddyrannwyd i'r Sefydliad gan Weinidogion Cymru.

31. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu'r cyllid i'r Sefydliad mewn tri rhandaliad. Gwneir y rhandaliadau cyn pob tymor yn ôl y gymhareb 40:30:30. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru ddewis cadw unrhyw rhandaliad yn ôl os yw'r Sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn cadw digon o gyllid i ddiwallu'r angen presennol.

## **Cyllid nas gwariwyd**

32. Ar ddiwedd y cyfnod y mae'r Cynllun hwn yn gymwys iddo, caiff y Sefydliad gario ymlaen hyd at 10% o gyfanswm y cyllid sydd ar gael iddo o dan y Cynllun hwn heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.

33. Dim ond mewn perthynas â chynllun caledi olynol a sefydlir gan Weinidogion Cymru y caniateir defnyddio unrhyw gyllid a llog a gariwyd ymlaen o dan baragraff 32.



**34.** Rhaid i weddill unrhyw gyllid nas gwariwyd a llog sydd gan y Sefydliad mewn cysylltiad â'r Cynllun hwn (dros ben yr hyn a gyfrifir o dan baragraff 32 ac sy'n parhau heb ei wario ar 31 Gorffennaf 2022) gael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Rhagfyr 2022 fan bellaf.

**35.** At ddibenion paragraff 32, mae'r ffigur o 10% i'w gyfrifo drwy gyfeirio at swm y dyraniad i'r Sefydliad ar gyfer 2021/22 ynghyd ag unrhyw gyllid a gariwyd ymlaen o'r blaen gan y Sefydliad, ac unrhyw log a enillwyd ar y swm hwnnw a'r cyllid hwnnw.

### **Costau cyhoeddusrwydd a gweinyddu**

**36.** Caiff y Sefydliad ddefnyddio hyd at 3% o gyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddo o dan y Cynllun hwn neu £525, pa un bynnag yw'r swm mwyaf, i sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd effeithiol i'r Cynllun a'i fod yn cael ei weinyddu'n effeithiol.

### **Atebolrwydd**

**37.** Cyfarwyddwr y Sefydliad yng Nghymru sy'n gyfrifol am—

(1) hysbysu Corff Llywodraethu'r Sefydliad am ei gyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn;

(2) sicrhau bod y ffyrdd y mae'r Sefydliad yn defnyddio ei dyraniad o gyllid yn gyson â dibenion y Cynllun hwn ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r Cynllun hwn; a

(3) cymryd pa gamau bynnag a fydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd i sicrhau bod system o reolaethau a dulliau rheoli ariannol ar waith, i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

### **Darparu cyfrifon, gwybodaeth archwilio a gwybodaeth ychwanegol**

**38.** Mae'n ofynnol i'r Sefydliad roi sylw i'r gofynion a gynhwysir yn llythyr y cynnig. Rhaid i'r Sefydliad roi unrhyw wybodaeth mewn cysylltiad â'i gyfrifon archwiliedig ar gael i Weinidogion Cymru os gofynnant amdani.

**39.** Rhaid i'r Sefydliad ddefnyddio'r ad-daliadau a wneir gan fyfyrwyr mewn cysylltiad â benthyciadau byrdymor a wneir o dan baragraff 25 o'r Cynllun hwn at y dibenion a nodir yn y Cynllun hwn neu ar gyfer taliadau pellach y bydd rhaid eu dogfennu yn yr un modd â'r taliadau gwreiddiol.

**40.** Ni chaiff y Sefydliad ddefnyddio'r ad-daliadau a wneir gan fyfyrwyr mewn cysylltiad â benthyciadau a wnaed o dan baragraff 25 o'r Cynllun hwn ond at y dibenion a nodir yn y Cynllun hwn neu ar gyfer

taliadau pellach y bydd rhaid eu dogfennu yn yr un modd â thaliadau gwreiddiol.

## RHAN 7 – PROSES AU: Y RHYNGWYNEB RHWNG Y SEFYDLIAD A MYFYRWYR

### Polisi

**41.** Mae'n ofynnol bod gan y Sefydliad bolisi ysgrifenedig ar gyfer dyrannu taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn. Rhaid i'r polisi ysgrifenedig fod yn eglur a chael ei gyhoeddi (ynghyd â'r weithdrefn apelio o dan baragraff 50) ym mha fodd bynnag y mae'r Sefydliad yn ystyried ei fod yn briodol, ar yr amod ei fod ar gael yn hawdd i'w fyfyrwyr ac i'r rheini sy'n eu cynghori. Rhaid i'r polisi ysgrifenedig, ac unrhyw ddeunyddiau neu hysbysebion eraill a gyhoeddir mewn perthynas â'r Cynllun, gyfeirio at y Cynllun fel "Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Y Brifysgol Agored) (Cymru) 2021/22".

### Taliadau i fyfyrwyr

**42.** Rhaid i'r Sefydliad ymdrin â thaliadau myfyrwyr yn brydlon, gan gadw mewn cof ddibenion y Cynllun hwn a'r amgylchiadau sy'n arwain at galedi ariannol.

**43.** Ni chaiff y Sefydliad ymrwymo i wneud unrhyw ddyfardaliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn i fyfyrwyr.

**44.** Caiff y Sefydliad gytuno mewn egwyddor ar daliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn cyn dechrau cwrs y myfyriwr cymwys, ond ni chaniateir talu unrhyw arian i fyfyriwr hyd nes bod y myfyriwr wedi dechrau'r cwrs.

**45.** Caiff y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau.

**46.** Dylai'r Sefydliad roi sylw i unrhyw God Ymarfer a ddyroddir o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn cysylltiad â gofynion a osodir gan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### Taliadau ac eithrio taliadau uniongyrchol i'r myfyriwr / dyled i'r Sefydliad

**47.** Yn ddarostyngedig i'r eithriad sy'n dilyn, caiff y Sefydliad ddefnyddio'r Cynllun hwn i adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus gan y myfyriwr i'r Sefydliad, ar yr amod bod y myfyriwr yn gyntaf yn cydsynio i'r cyllid gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw. Yr eithriad yw na chaiff y Sefydliad ddefnyddio'r Cynllun i'w ddigolledu ei hunan yn uniongyrchol mewn

cysylltiad â ffioedd dysgu nas talwyd (ac eithrio dyled a gododd mewn cysylltiad â thaliad a wnaed o dan baragraff 15 o'r Cynllun hwn).

**48.** Rhaid i'r Sefydliad beidio â gwneud taliadau o dan y Cynllun hwn yn amodol ar setlo yn gyntaf gan fyfyrwr unrhyw ddyled sydd ar y myfyriwr hwnnw i'r Sefydliad, na mynnu bod myfyriwr yn defnyddio unrhyw daliad o dan y Cynllun hwn i setlo dyled o'r fath.

### **Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau wedi eu hatal dros dro**

**49.** Caiff y Sefydliad wneud taliadau o dan y Cynllun hwn i fyfyrwr cymwys sydd wedi atal eu hastudiaethau dros dro am resymau ynglŷn ag iechyd, yr angen i ofalu am eraill, beichiogrwydd, neu unrhyw amgylchiadau eraill y mae'r Sefydliad yn barnu eu bod yn briodol, ar yr amod bod y Sefydliad wedi ei fodloni nad yw'r myfyriwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs nac wedi gadael y cwrs a'i fod yn bwriadu dychwelyd iddo.

### **Apelau**

**50.** Rhaid i'r Sefydliad fod wedi sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn apelio ar gyfer achosion pan fo myfyrwr wedi ymgeisio'n aflwyddiannus am gymorth o dan y Cynllun hwn. Dylai'r weithdrefn hon gael ei chyhoeddi, a rhaid rhoi gwybod i fyfyrwr am eu hawl i apelio. Cyfrifoldeb y Sefydliad yw penderfyniadau ynglŷn â chymhwysra a dyfardaliadau. Mater i'r Sefydliad yw ystyried pob achos a datrys apelau yn unol â'i weithdrefn gyhoeddedig.

**51.** Dylai'r Sefydliad ystyried cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwr yn y broses o wneud penderfyniadau.

*Jeremy Miles AS*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2021

# YR ATODLEN

## Myfyrwyr Cymwys

### RHAN 1

#### Dehongli

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “AEE” (“EEA”) yw’r diriogaeth a ffurfir gan Aelod-wladwriaethau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) (oni nodir fel arall) yw—

- (a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, person hunangyflogedig AEE neu berson perthnasol o Ogledd Iwerddon sy’n cael ei drin fel pe bai’n weithiwr mudol AEE neu’n berson hunangyflogedig AEE—
  - (i) priod y person neu ei bartner sifil;
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person sydd—
    - (aa) o dan 21 oed; neu
    - (bb) yn ddibynyddion y person neu’n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person; neu
  - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;
- (b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—
  - (i) priod y person neu ei bartner sifil; neu
  - (ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;
- (c) mewn perthynas â gwladolyn UE sy’n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—
  - (i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil; neu
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
    - (aa) o dan 21 oed; neu

- (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (d) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—
  - (i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil;
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
    - (aa) o dan 21 oed; neu
    - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
  - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (e) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 14—
  - (i) priod y gwladolyn neu ei bartner sifil; neu
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
    - (aa) o dan 21 oed; neu
    - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr “Ardal Economaidd Ewropeaidd” (“*European Economic Area*”) yw'r ardal a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (“*Directive 2004/38*”) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hawl dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

mae i “cyfnod gras” yr ystyr a roddir i “*grace period*” gan reoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020;

mae i “cyfnod perthnasol” yr ystyr a roddir i “*relevant period*” gan reoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020;

mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “*Swiss citizens' rights agreement*” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chyddfederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn

Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(1) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

mae i “diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu” (“*implementation period completion day*”) yr ystyr a roddir gan Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019;

ystyr “ffoadur” (“*refugee*”) yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy’n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y’i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

ystyr “gweithiwr” yw “worker” o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr “gweithiwr mudol AEE” (“*EEA migrant worker*”) yw gwladolyn AEE sy’n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gweithiwr trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw gwladolyn AEE sydd—

- (a) yn weithiwr yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “gweithiwr Twrcaidd” (“*Turkish worker*”) yw gwladolyn Twrcaidd—

- (a) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd; a
- (b) sy’n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi’n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn AEE” (“*EEA national*”) yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE;

ystyr “gwladolyn UE” (“*EU national*”) yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd;

ystyr “Gwladwriaeth AEE” (“*EEA State*”) yw Aelod-wladwriaeth o’r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

---

(1) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t. 6.

ystyr “person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”) yw—

- (a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy’n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu
- (b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy’n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sy’n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sydd—

- (a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE, ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

mae i “person perthnasol o Ogledd Iwerddon” yr ystyr a roddir i “relevant person of Northern Ireland” gan reolau mewnfudo’r cynllun preswyllo;

ystyr “person sydd â chaniatâd Calais” (“*person with Calais leave*”) yw person a chanddo ganiatâd cyfredol i aros o dan baragraffau 352J, 352K, 352L neu 352T o’r Rheolau Mewnfudo (caniatâd Calais a “caniatâd oherwydd llinach” a roddir yn rhinwedd bod yn blentyn dibynnol i berson y rhoddwyd caniatâd Calais iddo);

ystyr “person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67” (“*person with section 67 leave to remain*”) yw person—

- (a) y mae ganddo ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â’r rheolau mewnfudo; a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i’r caniatâd hwnnw gael ei roi i’r person;

ystyr “person sydd â hawliau gwarchoddedig” (“*person with protected rights*”) yw person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion—

- (i) a chanddo ganiatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo;
  - (ii) sy’n ddinesydd Gwyddelig nad yw’n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971(1), gael caniatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;
  - (iii) sy’n berson perthnasol at ddibenion rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 pan na fo’r cyfnod gras wedi dod i ben;
  - (iv) sy’n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 pan na fo’r cyfnod perthnasol wedi dod i ben;
  - (v) fel arall sydd â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau hawliau dinasyddion perthnasol;
- (c) aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo pan fo gan yr aelod hwnnw o’r teulu ganiatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo;

(2) ym mharagraff (1)(v), ystyr “darpariaethau hawliau dinasyddion perthnasol” yw—

---

(1) 1971 p. 77.



- (a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb ymadael â'r UE;
- (b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb gwahanu (fel y diffinnir "separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu
- (c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;

ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" ("*person granted leave to remain as a protected partner*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo aros yn y Deyrnas Unedig naill ai fel dioddefwr trais domestig neu gam-drin domestig neu fel partner sydd wedi cael profedigaeth o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnffudo—

- (a) paragraffau 289B a 289D (dioddefwyr trais domestig);
- (b) paragraffau D-DVILR.1.1. a D-DVILR.1.2. o Atodiad FM (dioddefwyr cam-drin domestig);
- (c) paragraffau 40 ac 41 o Atodiad Lluoedd Arfog (dioddefwyr trais domestig sy'n bartneriaid i aelodau o'r lluoedd arfog);
- (d) paragraff 288, fel person y mae'r gofynion ym mharagraff 287(b) o'r rheolau hynny wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (priodau neu bartneriaid sifil sydd wedi cael profedigaeth);
- (e) paragraffau D-BPILR.1.1. a D-BPILR.1.2. o Atodiad FM (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth);
- (f) paragraffau 36 a 37 o Atodiad Lluoedd Arfog (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth); neu
- (g) paragraff 295N, fel person y mae'r gofynion ym mharagraff 295M o'r rheolau hynny wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (partneriaid di-briod neu bartneriaid o'r un rhyw sydd wedi cael profedigaeth);

ystyr "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth" ("*person granted stateless leave*") yw person—

- (a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnffudo; a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;

ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir” (“*person granted leave to enter or remain as a protected person*”) yw person sydd â chaniatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo;

ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw’r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971;

mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;

ystyr “Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020” (“*the 2020 Citizens’ Rights Regulations*”) yw Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â’r UE) 2020;

ystyr “yr Undeb Ewropeaidd” (“*European Union*”) yw’r diriogaeth a ffurfir gan Aelod-wladwriaethau’r Undeb Ewropeaidd fel y’i cyfansoddir o bryd i’w gilydd;

mae i “wedi setlo” yr ystyr a roddir i “settled” gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1);

ystyr “Ynysoedd” (“*Islands*”) yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae “rhiant” yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae “plentyn” i’w ddehongli yn unol â hynny.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person (“A” yn yr is-baragraff hwn) i’w drin fel pe bai’n preswyllo fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon neu yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci pe bai A wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith bod—

- (a) A;
- (b) priod neu bartner sifil A;
- (c) rhiant A; neu
- (d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon neu’r diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

---

(1) 1971 p. 77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

(5) At ddibenion is-baragraff (3), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath;
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon fel aelodau o luoedd o'r fath;
- (c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath; a
- (d) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(6) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Cynllun hwn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at "Member State" neu "State" yn Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig.

(8) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion os yw'r person hwnnw yn dod o fewn—

- (a) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ymadael â'r UE;
- (b) Erthygl 9 (cwmpas personol) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu
- (c) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

## RHAN 2

### Categoriâu o Fyfyrrwyr Cymwys

#### Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac nad yw'n dod o fewn paragraff 3;
- (b) yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(3).

3.—(1) Person—

- (a) sy'n bodloni un o'r amodau a ganlyn ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—
  - (i) mae'r person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo;
  - (ii) o ran y person—
    - (aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;
    - (bb) mae'n ddinesydd Gwyddelig sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971, gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi; ac
    - (cc) byddai'n bodloni'r gofynion cymhwysra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo pe bai'r person hwnnw yn

gwneud cais am ganiatâd o'r fath;

(iii) o ran y person—

- (aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;
- (bb) mae'n berson perthnasol at ddibenion rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020; ac
- (cc) mae ganddo hawl i breswyllo'n barhaol, neu'n cael ei drin fel pe bai ganddo hawl o'r fath, at ddibenion Rheoliadau Mewnfudo (yr AEE) 2016, fel y mae'r Rheoliadau hynny yn parhau i gael effaith yn rhinwedd Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 mewn perthynas â'r person hwnnw yn ystod y cyfnod gras;

(iv) o ran y person—

- (aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion;
- (bb) mae'n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3); ac
- (cc) mae ganddo hawl i breswyllo'n barhaol, neu'n cael ei drin fel pe bai ganddo hawl o'r fath, at ddibenion Rheoliadau Mewnfudo (yr AEE) 2016, fel y mae'r Rheoliadau hynny yn parhau i gael effaith yn rhinwedd Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 mewn perthynas â'r person hwnnw yn ystod y cyfnod perthnasol neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswyllo'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir ym mharagraff (3); neu

(v) mae'r person yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun

preswyllo, pan fo'r aelod hwnnw o'r teulu wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo;

- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(ii)(cc), ystyr "gofynion cymhwysra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynnddi yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo" yw'r gofynion cymhwysra ar gyfer caniatâd o'r fath yn unol â pharagraff EU11 o Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iv), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

- (a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb ymadael â'r UE;
- (b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu
- (c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswyllo) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

#### **Ffoduriaid ac aelodau o'u teuluoedd**

4.—(1) Person—

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

### **Personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd**

5.—(1) Person—

- (a) y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil a ddiogelir;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo neu fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo);

- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn a ddiogelir;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—
  - (i) o dan 18 oed; a
  - (ii) yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir ar y dyddiad hwnnw (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo, caniatâd i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo neu adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 a'r rheolau mewnfudo, yn ôl y digwydd);
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

- (a) ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person (“P”) gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir;
- (b) ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir” yw—
  - (i) person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;
  - (ii) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
  - (iii) person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67; neu



- (iv) person sydd â chaniatâd Calais;
- (c) ystyr “plentyn a ddiogelir” yw—
  - (i) plentyn i—
    - (aa) person sydd â chaniatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo;
    - (bb) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
    - (cc) person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67;
  - (ii) plentyn i briod neu bartner sifil—
    - (aa) person sydd â chaniatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo; neu
    - (bb) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (d) ystyr “priod neu bartner sifil a ddiogelir” yw priod neu bartner sifil i—
  - (i) person sydd â chaniatâd cyfredol i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo; neu
  - (ii) person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth.

**Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel partner a ddiogelir a'u plant**

**6.—(1) Person—**

- (a) y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd y caniatâd hwinnw iddo; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

**(2) Person—**

- (a) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir;

- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i aros yn y Deyrnas Unedig;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth person ("P") gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir.

**Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd**

**7.—(1) Person—**

- (a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**(2) Person—**

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**(3) Person—**

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;

- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" yw person ("P")—

- (a) sydd—
  - (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i'w gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
  - (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i'r person hwnnw ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
  - (iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo; neu
  - (iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- (b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; ac

- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers iddo gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi.

### **Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd**

#### **8.—(1) Person—**

- (a) sydd—
  - (i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE;
  - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
  - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);
  - (iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE;
  - (v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd; neu
  - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (iv) neu (v);
- (b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

**9.—(1) Person sydd â hawliau gwarchoddedig neu weithiwr trawsffiniol o fewn ystyr “frontier worker” yn rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020—**

- (a) sydd—
  - (i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE;

- (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
  - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii);
  - (iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE;
  - (v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd; neu
  - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v);
- (b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
  - (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

(3) Yn y paragraff hwn, mae disgrifiad o berson yn is-baragraff (1)(a)(i) i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys person perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai, pe bai'r person hwnnw yn wladolyn AEE neu'n wladolyn AEE yn unig, yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE.

**10.—(1) Person—**

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 492/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Ebrill 2011 ar symudiad rhydd gweithwyr o fewn yr Undeb ("y Rheoliad Gweithwyr"), fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(c), yn Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr mae'r cyfeiriad at "another Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig ac mae'r cyfeiriadau at "that State" i'w dehongli yn unol â hynny.

(3) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**11.—(1) Person sydd â hawliau gwarchoddedig—**

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(c), yn Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr—

- (a) mae'r cyfeiriad at "national of a Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys person perthnasol o Ogledd Iwerddon; a
- (b) mae'r cyfeiriad at "another Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig, ac mae'r cyfeiriadau at "that State" i'w dehongli yn unol â hynny.

**Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall**

**12.—(1) Person—**

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fydd tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig,

Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

- (e) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (d), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo os yw is-baragraff (3) neu (4) yn gymwys i'r person.

(3) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson sydd—

- (a) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig;
- (b) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir); neu
- (c) yn berson yr oedd ganddo'r hawl i breswyllo'n barhaol;
- (d) wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i berson sydd—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac yr oedd ganddo'r hawl i breswyllo'n barhaol; a
- (b) wedi mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir y mae'n wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae'n aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(5) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.

**13.**—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;
- (c) a oedd yn preswyllo fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

- (i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio Gibraltar, yr AEE a'r Swistir; neu
- (ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswyllo fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio Gibraltar, yr AEE a'r Swistir;

ac sydd wedi parhau i breswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fydd tymor cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs yn dechrau mewn gwirionedd;
- (e) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (f) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (e) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (e).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo os yw'r person hwnnw yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir), neu'n berson yr oedd ganddo'r hawl i breswyllo'n barhaol, sydd ym mhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac yr oedd ganddo'r hawl i breswyllo'n barhaol, os yw'r person wedi mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir y mae'r person yn wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae'n aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.



## Gwladolion o'r Deyrnas Unedig

### 14.—(1) Person—

- (a) sydd—
  - (i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; neu
  - (ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i);
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—
  - (i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir; neu
  - (ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswyllo hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r AEE a'r Swistir;  
  
ac sydd wedi parhau i breswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sy'n mynychu cwrs;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(3).

(3) Pan fo person ("P") yn dod o fewn is-baragraff (1)(a)(ii), rhaid i'r person y mae P yn aelod o'r teulu mewn perthynas ag ef hefyd fodloni gofynion is-baragraff (1)(b) a (d).

## Gwladolion UE sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig

### 15.—(1) Person—

- (a) sy'n wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

**16. Person sydd â hawliau gwarchoddedig—**

- (a) sy'n wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

**Plant gwladolion Swisaidd**

**17.—(1) Person—**

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

**18. Person sydd â hawliau gwarchoddedig—**

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 18(2) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

**Plant gweithwyr Twrcaidd**

**19. Person—**

- (a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**20.—(1) Person—**

- (a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd (“T”) pan oedd T yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;
- (b) a oedd, yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—
  - (i) yn blentyn i T; a
  - (ii) yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
- (c) yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

## RHAN 3

### Categoriâu o Fyfirwyr sy'n Gymwys am Gymorth at Ffioedd Dysgu yn Unig

#### **Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig**

**21. Person—**

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs ac nad yw'n dod o fewn paragraff 3 o'r Atodlen hon;
- (b) sy'n ymgymryd â chwrs yng Nghymru;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

## **Gwladolion UE a gwladolion o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo**

### **22.—(1) Person—**

- (a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs—
  - (i) yn wladolyn UE;
  - (ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo; neu
  - (iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);
- (b) sy'n ymgymryd â chwrs yng Nghymru;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (1) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

## **Personau sydd â hawliau gwarchoddedig**

### **23. Person sydd â hawliau gwarchoddedig—**

- (a) sydd—
  - (i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
  - (ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i); neu
  - (iii) yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon;
- (b) sy'n ymgymryd â chwrs yng Nghymru;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

## **Aelodau o deulu gwladolion o'r Deyrnas Unedig**

### **24. Person—**

- (a) sy'n aelod o deulu person sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sy'n ymgymryd â chwrs yng Nghymru;
- (c) sydd wedi bod yn breswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) na fu'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

## **Preswylwyr Gibraltar**

### **25. Person—**

- (a) sydd—
  - (i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd â statws preswyllydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar;
  - (ii) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu statws preswyllydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar;
  - (iii) yn wladolyn UE sydd â hawl i breswyllo yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE; neu
  - (iv) yn aelod o deulu gwladolyn UE, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu hawl i breswyllo yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE;
- (b) sy'n ymgymryd â chwrs yng Nghymru;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) na fu'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.